RWE

## Datganiad i'r

# RWE yn dathlu rhagoriaeth gymunedol gan ddyfarnu Gwobr 'Future Bright' i Brosiect Cynefin

- **Drwy Future Bright, mae RWE yn dangos ei ymrwymiad i gymunedau, gan fuddsoddi dros £38 miliwn drwy gronfeydd a reolir yn lleol.**
- **RWE yn dyfarnu gwobr nodedig Future Bright i Brosiect Cynefin am ddatblygiad cymunedol rhagorol.**
- **Prosiect Cynefin yn uno chwe ysgol leol yn Sir Gaerfyrddin i feithrin cysylltiad dwfn â threftadaeth ac amgylchedd lleol.**
- **Y cynllun, a ariennir gan Gronfa Gymunedol Fferm Wynt Gorllewin Coedwig Brechfa, yn creu argraff ar dros 500 o fyfyrwyr drwy ddysgu yn yr awyr agored a llesiant cyfannol**

Cymru, 10 Mehefin 2024

Mewn dathliad cyffrous yng Nghlwb Rygbi Nantgaredig, roedd RWE yn falch o gyflwyno'r ail wobr 'Future Bright' i Brosiect Cynefin. Roedd y digwyddiad hwn yn benllanw cynllun arloesol a sbardunwyd gan chwe ysgol leol yn Sir Gaerfyrddin—Ysgol Nantgaredig, Ysgol Llanllwni, Ysgol Cae'r Felin, Ysgol Peniel, Ysgol Llanpumsaint, ac Ysgol Abergwili—a ariannwyd gan Gronfa Gymunedol Fferm Wynt Gorllewin Coedwig Brechfa ac RWE.

Mae gwobr nodedig 'Future Bright', sy'n rhan o raglen Future Bright RWE, yn anrhydeddu prosiectau cymunedol rhagorol sy'n gwneud gwahaniaeth. Mae'r cronfeydd budd cymunedol hyn, a sefydlwyd ochr yn ochr â phrosiectau ynni adnewyddadwy RWE, yn grymuso cymunedau lleol i weithredu mentrau sy'n newid bywydau ac sy'n hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a ffyniant economaidd.

Bu **Katy Woodington, Rheolwr Buddsoddi Cymunedol RWE,** yn canmol y fenter: "Mae ein hymrwymiad i ddatblygu cymunedol yn ddiwyro. Mae Prosiect Cynefin yn dangos sut gallwn ni, gyda'n gilydd, feithrin ymdeimlad o berthyn, balchder a chyfraniad gweithredol ymysg dysgwyr ifanc, gan sicrhau eu bod yn chwarae rhan yn y gwaith o lunio a diogelu eu hamgylchedd lleol."

Nod Prosiect Cynefin, a gychwynnwyd ym mis Medi 2022, oedd cyflwyno dull thematig newydd a oedd yn cyd-fynd â fframwaith gweledigaethol y Cwricwlwm newydd i Gymru. Gan hybu dealltwriaeth ddofn o'r ardal leol, mae'r prosiect wedi galluogi myfyrwyr i archwilio eu hanes cyfoethog a'u hanfod cyfoes law yn llaw â meithrin ymdeimlad o gyfrifoldeb ar gyfer y dyfodol.

Myfyriodd **Charlotte Evans o Ysgol Llanllwni** ar effaith y prosiect: "Wrth wynebu heriau cynnar, cryfder ein prosiect oedd ein hundeb. Pan ddechreuon ni gwrdd wyneb yn wyneb, daeth pob her yn bont, gan ddod â ni'n agosach at ein gilydd. Pan oeddwn yn ansicr, fe ddysgais fod nerth yn ein cydweithfa fach – oherwydd os nad ydych chi'n gwybod yr ateb, bydd rhywun arall yn sicr o'i wybod."

Cafodd y digwyddiad ei gynnal ar **8 Mehefin 2024** yng Nghlwb Rygbi Nantgaredig ac roedd yn cynnwys arddangosfa o brosiectau a chyflawniadau myfyrwyr. Gyda pherfformiadau llwyfan arbennig gan **Dafydd Iwan** a **The Welsh Whisperer**, ochr yn ochr â chôr chwe ysgol.

Roedd gweithgareddau amrywiol yn cael eu cynnal drwy gydol y dydd, gan gynnwys celf, ysgol goedwig, gweithdai chwaraeon,  dawns a symud ac arddangosfa ryngweithiol yn tynnu sylw at yr argraff y mae Prosiect Cynefin wedi'i chael ar dros 500 o ddisgyblion.

Bu **Sharon Phillips o Ysgol Nantgaredig** dynnu sylw at agwedd gynaliadwy'r prosiect: "Nid yw ein hymrwymiad i gynaliadwyedd yn ymwneud â defnyddio adnoddau'n ddoeth yn unig; mae'n ymwneud â sicrhau bod bob plentyn yn meithrin parch a chariad parhaol at ein hamgylchedd lleol. Rydyn ni'n cynllunio nid yn unig ar gyfer y cam nesaf, ond ar gyfer y genhedlaeth nesaf."

Mae Prosiect Cynefin yn enghraifft o fentrau a arweinir gan y gymuned yn llywio dulliau cyllido. Cafodd ei greu gan banel cymunedol o Gronfa Gymunedol Fferm Wynt Gorllewin Coedwig Brechfa, a oedd yn ceisio mynd y tu hwnt i gyllido adeiladau lleol a grwpiau presennol. Roedd y panel annibynnol yn dwyn ynghyd arweinwyr ac athrawon o chwe ysgol gynradd leol gyda chynrychiolwyr o Adrannau Addysg Awdurdodau Lleol. Gyda'i gilydd aethant ati i greu rhaglen a oedd yn dwyn budd i 500 o fyfyrwyr a'u hathrawon.

**Dywedodd Gareth Morgans, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant Cyngor Sir Caerfyrddin**: "Llongyfarchiadau i'r holl ysgolion a disgyblion sydd wedi cyfrannu at lwyddiant Prosiect Cynefin a chael cydnabyddiaeth drwy ennill y Wobr Future Bright. Mae'n amlwg bod ein hysgolion yn meithrin pwysigrwydd cymuned i'n dysgwyr o oedran ifanc ac, fel Cyngor Sir, rydyn ni'n falch iawn ohonyn nhw."

Mae rhaglenni cyllido RWE yn grymuso trigolion lleol i lunio a dylanwadu'n uniongyrchol ar ddatblygiad eu cymunedau. Mae Prosiect Cynefin yn enghraifft wych o'r hyn y gellir ei gyflawni pan fydd cymuned yn dod at ei gilydd gyda gweledigaeth ar y cyd ar gyfer y dyfodol.

I ddysgu mwy am raglenni cronfa gymunedol RWE a'r prosiectau dylanwadol sy'n cael eu cefnogi gan Future Bright, ewch yma.

RWE Renewables Ewrop ac Awstrali GmbH | Cyfathrebu Corfforaethol y Grŵp, a Materion Cyhoeddus | RWE Platz 4 | 45141 Essen | Yr Almaen
Ffôn +49 201 5179-5008 | communications@rwe.com | www.rwe.com/press

**Ymholiadau pellach:**

Kelly Nye
Cysylltiadau â'r cyfryngau RWE
Y Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus
Ffôn Symudol +44 7795354552
E-bost kelly.nye@rwe.com

**Lluniau at ddefnydd y cyfryngau** (cydnabyddiaeth: RWE) ar gael yng Nghanolfan y Cyfryngau RWE

**RWE**

*Mae RWE yn arwain y ffordd i fyd ynni gwyrdd. Gyda'i strategaeth fuddsoddi a thwf, Tyfu'n Wyrdd, mae RWE yn cyfrannu'n sylweddol at lwyddiant y broses trawsnewid i ynni adnewyddadwy a datgarboneiddio'r system ynni. Mae tua 20,000 o weithwyr yn gweithio i'r cwmni mewn bron i 30 o wledydd ledled y byd. Mae RWE eisoes yn un o'r prif gwmnïau ym maes ynni adnewyddadwy. Rhwng 2024 a 2030, bydd RWE yn buddsoddi 55 biliwn ewro ledled y byd mewn prosiectau ynni gwynt ar y môr ac ar y tir, ynni solar, batris, cynhyrchu hyblyg a hydrogen. Erbyn diwedd y degawd, bydd portffolio gwyrdd y cwmni'n tyfu i dros 65 gigawat o gapasiti cynhyrchu, a fydd yn cael ei ategu'n berffaith gan fasnachu ynni byd-eang. Mae RWE yn datgarboneiddio ei fusnes yn unol â'r llwybr lleihau 1.5 gradd a bydd yn rhoi'r gorau i lo yn raddol erbyn 2030. Bydd RWE yn sero-net erbyn 2040. Yn cyd-fynd yn llwyr â phwrpas y cwmni – Ein hynni ar gyfer bywyd cynaliadwy.*

***Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR)***

*Bydd y data personol sy'n cael ei brosesu mewn cysylltiad â'r datganiadau i'r wasg yn cael ei brosesu yn unol â'r gofynion diogelu data cyfreithiol. Os nad oes gennych chi ddiddordeb mewn parhau i gael y datganiad i'r wasg, rhowch wybod i ni drwy anfon e-bost i communications@rwe.com. Bydd eich data wedyn yn cael ei ddileu, ac ni fyddwch chi'n cael rhagor o ddatganiadau i'r wasg gennym yn y cyswllt hwn. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am ein polisi diogelu data neu am arfer eich hawliau o dan y GDPR, cysylltwch â ukdataprotectionrwe@rwe.com.*